



**Cyfarfod Bwrdd CHC
a gynhaliwyd ddydd Llun 17 Medi
yn swyddfa CHC yng Nghaerdydd**

Cyfarfu Bwrdd CHC ddydd Llun 17 Medi yn swyddfa CHC yng Nghaerdydd. Roedd cworwm yn y cyfarfod gyda 5 aelod bwrdd yn bresennol yn ogystal ag aelodau o Grŵp Uwch Reolwyr CHC. Roedd y rhai'n bresennol yn cynnwys: Debbie Green (Tai Coastal), Scott Sanders (Linc Cymru), Paul Roberts (Newydd), Chris O'Meara (Cadwyn), a Paula Kennedy (Cartrefi Melin).

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Andrew Bowden, Cartrefi Conwy, Steve Higginson, Tai Sir Fynwy a Matt Brown, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Mae'r dilydol yn grynodedb o'r eitemau a drafodwyd a phenderfyniadau allweddol a gymerwyd yn y cyfarfod.

Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad yr Archwilydd: Daeth Bevan & Buckland i siarad yn y Bwrdd am yr archwiliad a gynhaliwyd ym mis Mehefin, a rhoi archwiliad glân i CHC. Roedd cyfanswm y gwarged yn £55k, o gymharu â rhagolwg gwarged o £32k. Ychwanegwyd hyn at y cronfeydd wrth gefn heb gyfyngiad. **Canlyniad: Cytunodd y Bwrdd i'r adroddiad gael ei gymeradwyo gan aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Tachwedd.**

Argymhellion Pwyllgor Enwebiadau: Roedd cadeirydd y pwyllgor Enwebiadau yn bresennol a gwnaeth argymhellion i'r Bwrdd. Cymeradwywyd penodi pedwar ymgeisydd - Andrew Martyn-Johns fel Cadeirydd Annibynnol a Kath Palmer (Hafod), Andrew Vye (Pobl), Jonathan Huish (Trivallis) fel aelodau Bwrdd. Cynhelir eu hetholiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Tachwedd ar ôl cael cymeradwyaeth aelodau. Bydd un lle yn dal yn wag, a bydd y Bwrdd yn ceisio ei lenwi drwy gyfethol, er mwyn gwella cydbwysedd amrywiaeth y Bwrdd presennol. **Canlyniad: Cynhelir etholiad ar gyfer yr aelodau Bwrdd newydd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Tachwedd a bydd proses i benodi aelod wedi'i gyfethol i'r Bwrdd cyn gynted ag sydd modd.**

Cyfrifon Rheoli Ch1 2018-19: Bu perfformiad cryf yn y chwarter cyntaf gyda'r gwarged presennol yn £12k ar yr holl weithgareddau. **Canlyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd Gyfrifon Rheoli Ch1 2018-19.**

Cynllun Corfforaethol 2019-22: Mae CHC wedi cynnal nifer o grwpiau ffocws yn ddiweddar yn y De a'r Gogledd ar dair o themâu allweddol gweledigaeth Gorwelion Tai - Technoleg, Arweinyddiaeth a Sgiliau, yn ogystal â materion yn deillio o'r Arolwg Aelodaeth diweddar. Bu 95 cyfraniad gan 28 o wahanol gymdeithasau sy'n aelodau, yn ogystal â chyfraniadau gan 5 aelod masnachol. Defnyddiwyd yr adborth i helpu llywio ein Cynllun Corfforaethol nesaf, ynghyd â sesiynau Bwrdd a staff. Cyhoeddir drafft ar gyfer ymgynghori gan y sector ar 1 Hydref. Bydd llawer o gyfleoedd i roi adborth a thrafod ein blaenoriaethau drafft gyda'r rhaglen o 'Sioeau Teithio' yn Abertawe, Casnewydd a Bangor, gweminar ar-lein ac adborth ymgynghori ffurfiol. **Canlyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y themâu strategol ar gyfer 2019-22 yn barod ar gyfer ymgynghori gydag aelodau.**



Aelodaeth Housing Europe: Oherwydd yr ansicrwydd presennol am Brexit, penderfynwyd y bydd CHC yn cyflwyno ei ymddiswyddiad i Housing Europe erbyn diwedd mis Medi. Fodd bynnag, cymerir unrhyw benderfyniad terfynol ar p'un ai i adael neu aros ar ddechrau 2019.

Adolygiad o Dai Fforddiadwy: Mae CHC wedi cyflwyno ei dystiolaeth i'r Galwad am Dystiolaeth gan Banel yr Adolygiad. Cymerodd 200 o unigolion ran yn y broses. Hoffai'r Bwrdd a CHC ddiolch i bawb am eu holl waith caled ar hyn, yn arbennig Aaron Hill, a fu'n arwain ar ymateb y sector. Cynhelir cyfarfodydd cyntaf y ffrydiau gwaith dros yr wythnosau nesaf.

Arolwg ar Fodlonrwydd Aelodau: Rhoddwyd copi i'r Bwrdd o ganfyddiadau'r Arolwg ar Fodlonrwydd Aelodau a'n cynnig newydd i Aelodau Bwrdd. Cafodd y ddau eu cylchredeg i'r sector. Mae'r canfyddiadau o'r Arolwg o Fodlonrwydd Aelodau ar gael [yma](#) a'r cynnig i Aelodau Bwrdd ar gael [yma](#).

Dirprwy Brif Weithredydd: Bydd Clarissa Corbisiero-Peters yn dychwelyd i'r gwaith ddechrau mis Hydref, gan ddychwelyd mewn camau.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 8 Tachwedd yn swyddfa CHC yng Nghaerdydd.